Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Tabl o gymwysterau gofynnol ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru

Mae'n rhaid i chi gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ymarfer fel y rheolwr cofrestredig mewn gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru. Er mwyn cofrestru, rhaid i chi feddu ar un o'r cymwysterau a restrir isod. Mae'r rheolau yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sydd wedi'u henwi i ddirprwyo i'r rheolwr cofrestredig fod yn gymwys fel rheolwr gwasanaeth cymorth cartref a chofrestru gyda ni. Gellir darllen y rheolau ar ein gwefan.

Cymwysterau cyfredol angenrheidiol	**Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon**: os ydych yn gweithio gydag oedolion **Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon**: os ydych yn gweithio gyda phlant Rhaid i nyrs gofrestredig feddu ar naill ai: Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion / Rheolaeth Plant a Phobl Ifanc fel sy'n briodol) Cymru a Gogledd Iwerddon *neu* NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) (a aseswyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol) **Rhaid i nyrs gofrestredig gyda NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) hefyd gwblhau'r **Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion / Rheolaeth Plant a Phobl Ifanc fel sy'n briodol)** Cymru a Gogledd Iwerddon cyn adnewyddu cofrestriad..
Cymwysterau eraill a dderbynnir	• NVQ 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal • NVQ 4 Rheolaeth (*a aseswyd mewn lleoliad gofal*) • NVQ 4 Dyfarniad Rheolwr Cofrestredig (*gwasanaethau oedolion yn unig*) • NVQ 4 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc fel sy'n briodol) • NVQ 4 mewn Gofal • Diploma mewn Rheolaeth Gofal Cartref